# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

**RHAN 5**

DARPARIAETH ATODOL

**PENNOD 4**

COSBAU O DAN Y DDEDDF HON

*Cosbau sy'n ymwneud â chyfrifo pwysau trethadwy deunydd*

**63 Asesu cosbau o dan adrannau 61 a 62**

(1) Pan ddaw gweithredwr safle tirlenwi awdurdodedig yn agored i gosb o dan adran 61 neu 62, rhaid i ACC—

(a) asesu'r gosb, a

(b) dyroddi hysbysiad i'r person am y gosb a aseswyd.

(2) Caniateir cyfuno asesiad o gosb o dan adran 61 neu 62 gydag asesiad treth.

(3) Rhaid gwneud asesiad o gosb o dan adran 61 neu 62 o fewn y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y daeth ACC i gredu yn gyntaf bod y gweithredwr yn agored i'r gosb.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 63 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 63 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 63.